**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **15 GORFFENNAF 2014** |
| TEITL | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2013/14** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R DATGNIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2013/14 I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR** |

---

**1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?**

1.1 Er mwyn cyflawni ei roi fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Ystyried addasiadau i'r Datganiad a awgrymir gan y Cabinet (yn dilyn ei gyfarfod anffurfiol ar 9 Gorffennaf) a'r Grŵp Rheoli (yn dilyn cyfarfod 14 Gorffennaf), fydd yn cael eu cyflwyno ar lafar gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg.**
- **Herio'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg am gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.**

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010), sy'n datgan:

  **Rhaid i'r corff llywodraeth leol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei system o reoli mewnol, a rhaid cynnwys datganiad ar reoli mewnol, a baratowyd yn ôl arferion priodol, lle bo'n berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhwym arno i'w gyhoeddi.**

- Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")

- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*, ac atodiadau dilynol. Cyhoeddwyd yn atodiad diweddaraf yn Rhagfyr 2012.

## 3. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

3.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

3.2 Mae'r Datganiad wedi cael ei ddrafftio gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, ac wrth iddo gael ei ddatblygu mae ei gynnwys wedi cael ei adolygu, ei herio a'i gadarnhau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol (yn Chwefror, Ebrill a Mehefin 2014) a'r Pwyllgor Archwilio (yn Rhagfyr 2013 a Chwefror a Mai 2014).

3.3 Hefyd, cynhaliwyd Gweithdy o aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn Ionawr 2014 i rannu syniadau am drefniadau llywodraethu.

3.4 Cyflwynwyd y diagram sy'n cynnwys y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym Mai 2014. Bryd hynny, derbynion y Pwyllgor y sgoriau hyn, ac awgrymu addasiadau (e.e. ychwanegu Cydraddoldeb fel elfen yn y Fframwaith). Penderfyniad y Pwyllgor oedd:

**(i) Derbyn mai'r diffiniad o "lywodraethu da" yw trefniadau sy'n rhoi darparu ar ran bobl Gwynedd yn y canol;**

**(ii) Cytuno i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu barhau ar ei gyfeiriad presennol wrth ddatblygu'r trefniadau i hunanasesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor.**

3.5 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith lywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

3.6 Yn osystal â'r Tîm Rheoli Corfforaethol, mae'r drafft wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet Anffurfiol (9 Gorffennaf) a'r Grŵp Rheoli (14 Gorffennaf). Bydd eu sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar lafar.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- Ystyried addasiadau i'r Datganiad a awgrymir gan y Cabinet (yn dilyn ei gyfarfod anffurfiol ar 9 Gorffennaf) a'r Grŵp Rheoli (yn dilyn cyfarfod 14 Gorffennaf), fydd yn cael eu cyflwyno ar lafar gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg.
- Herio'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg am gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Gymeradwyo'r Datganiad sydd yn yr Atodiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.